# TAIR O
# GERDDI
# NEWYDDION.

I. Hanes Gwr o *Lancashire*, a laddodd ei Wraig, a dau o Blant.

II. Yn dangos fel mae Duw yn rhoi Arwyddion a Bygythion yn y Nefoedd uchod, ag yn y Ddaear isod, dan ddisgwyl i Ddynion edrych ar y pethau hyn, a gwellhau eu Buchedd, cyn dyfod y Dydd mawr ei Digter ef.

III. Hanes y pedwar Gwyr a fy'n chware Cardiau, yn y Mis *Mawrth* ddiwaethaf, yn y Flwyddyn, 1766.

UNIV. COLL. OF WALES ABERYSTWYTH SALISBURY LIBRARY MON.

CAERLLEON:
Argraphwyd gan T. HUXLEY, yn agos i Borth y Dwyrain, dros WILLIAM MORGAN, yn y Flwyddyn 1766.

UNIV. COLL. OF SALISBURY LIBRARY WALES & MON.



*Dechre Can, ar* LONDON BRENDIS.

GWYR a Gwragedd briod, gwrandewch ar Draethod drist,
O Hanes Gwr rwi'n coelio wrthododd Groeso Grist;
Fe laddodd Wraig ei Fynwes, a dau o Blantas mân,
Mae hynny yn fy mriso wrth gosio fath a'r Gân.
O *Lancashire* doe'r Newydd, lle 'roedd y Cigidd câs,
Am wrthod Deddf yr Arglwydd fe gollodd gynydd Grâs,
Nid oedd ond dêg o Ddyddiau er ban gawsa o llyngdod llon,
Pan ddarfu i Wâs y Satan wneud diben deg i bron.
Y *Mawrth* y chweched Diwrnod y gwnae ddibendod hon
Ar ddêg o'r Nos heb amgan, o Fulan drwg ei fron;
Fe goda'r Fwyall finiog, Ddyn llidiog hyll ei Wawr,
Ag ar i Gwddw drawa nes syrthia i Ffen hi i lawr.
'Roedd ganddo Blentyn tirion oedd union yn dair oed,
A hwnnw a ladde gwedi o rueni mwya 'rioed;
Ond dyna ddau a ladde, heb amme efo wnaeth gam,
A'r gwirion oedd yn ddifri yn gweiddi heb ei Fam.
At hwnnw'r ae o'n fuan, O Fulan drwg ei Fryd!
Nid oedd ond dêg o Ddydiau er ban ddaethe ef i'r Byd;
Hwnnw ni arbede, fo ai lladde dryme dro,
Di Drugaredd ydi'r Cythrael, gwae a el iw fagal fo.
'Nol darfod hyn o Orchest drwy'r Ffenest fawr yr aeth,
I Dŷ Cymmydog iddo, dan gwyno yno yn gaeth;
Dan floiddio, " fe ddaeth Dynion bryntion drwg i'm Tŷ,
" A lladd yn llwyr fy Nheulu, 'rwi'n ofni felly fu."

Fe

Fe goda'r Gwr o'i Welu ban glybu ei Waedd ai Gri,
Dan ddweudyd wrtho, " ymgroeswch, na ddweudwch
" hyn i mi ;"
A chwedi cael Goleuni, ymgroesi a wnae nhw'n fawr,
Ei Ddillad y gae nhw'n waedlyd, dychrynllyd oedd ei wawr.
Gofynna i *Wiliam Whittle*, " o ble daeth dysnyna gwaed
" A wela i ar ych dillad ? rhyw Weithred ddrwg a wnaed ;
Codi Aud i'r Tŷ yr aed, nhw welan Waed yn Llyn,
A thri Chorffyn ar i cyfar, hi aeth yn Fatter syn.
*Wiliam Chwittle* a ddweudodd, gyffesiodd, " dyma'r gwir
" Mi wneuthim Orchwyl erchyll, i sefyll arna i'n hir ;
" Lladd fy anwyl Briod, ond gormod oedd y Gwall,
" Fy Mhlant a gadd Farwolaeth, fy hudo wnaeth y Fall."
Fe aeth dan Ddwylo'r Cedurn rhoed arno Heyrn mawr,
'N rhwym ei Draed ai Ddwylo, nad alle rodio fawr ;
Bychan wydda i fammaeth wrth roi iddo Wenieth mwyn,
Mae dyna'r ffasiwn ddiwedd hull ddialedd ddoe iw ddwyn.
Gweddiwn bawb yn ddygun rhag Twyll y Gelyn câs,
Mae o'n ddi Drugaredd yn y diwedd wrth ei Wâs ;
Fe ai tun i Boen a Dialedd di ddiwedd byth heb baid,
Taer geisiwn Grist i'n helpu, fe deru yn ein plaid.
Ond trwm iw gweled un Dyn wrth Gortyn am i ddrwg,
Mae'n drymach ond considrio i Ddyn syrthio i Dân a Mŵg,
Lle bydd yn rhingcian Dannedd, heb ddiwedd ar ei boen,
Bob Cristion byw gweddied am fyned at yr Oen.
Os cychwnni yn Blentyn i ffordd y Gielun gwyd,
Mae'r Cythrael bob yn ronun 'n dy ddirwin at ei Rwyd ;
Fo gais yn daer dy dynnu i deyrnasu gidag e,
O rhêd at Frenhin *Israel*, mae ganddo Afel gre.
Gweddiwn a dymunwn na ddel y ffasiwn fraw
I'r Wlad, o Waith y Cythrael ; y dreial mawr a ddaw,
Y cawn ni am ein Beiau, heb amme, siwra Sen,
Duw'r Nefoedd a'n gymwyso i deyrnasu yno, *Amen.*

## *Dechre Can, ar* LYSENI MEISTRESS.

RHYFEDDWN Waith yr Arglwydd,
Y llowydd llawn ſy ddoeth i ddawn,
Sy'n rhoi ini Rybydd breuol,
Hynodol a ffrydnhawn;
Gin danfon Blinder arnon,
Gerbron yn brydd arwydd ſydd,
Fel gynt uwch ben *Caerſalem*.
Anraſol yn i Dydd:
Mae'n hir i'n Golwg ninne,
Mawr Gloſne a Dwne o Dân;
Yn arwyddo i ni riw Ddydd trwm gri,
Mawr ydi'r Goleuni glân;
A ninne yn dweyd nad ydis
Ond rhiw beth ſy'n goleuo oſlaen Glaw
Ni chymmer Dŷn wrth wêdd i lun
Gerbron un Gronyn Braw.
Mae Cleddyf Duw ar ein Gwarthe,
Am ein Drygfa draw yn llym iw law,
A hir ſwgwth Ddialedd,
O'r Diwedd drwm y daw;
Wrth weled Duw yn oidi,
Heb yn goſbi cud 'rym ni yn y Bŷd
Yn myned'n war galedion
Yn hyſion arno o hŷd:
Fel rhai y ſydde yn amme,
Nad oes yn ddie iw Dydd un Duw;
Na Nêf lân wawr, nag Uffern lawr
Mewn Beiau mawr yn byw;
Na choſio un Gair a ddweydodd
Duw 'or Nefoedd wrthym ni;

Na

Na chofio chwaith un rhybydd maith
Mewn Gryndod iaith daw Gri.
  Y llynedd yma gwelſon
Arwyddion rês i'n troi er llês
Y Ddaear fawr a ddeiſiodd
A grinodd dan y Gwrês;
A hynny a barodd Waſgfa,
I mewn yma a nâd i Dylodion Gwlâd,
Iw troi nhw i ddioddef Brinder
A gwagda'r Brydd-der brâd:
Y mawr Wŷr ni ſynan weled
Y Llu drueiniad gweiniad gwael;
Ni chan nid Glŵs oi Plwyf rhag Rhŵs,
Mor rhodio i Ddrŵs y rhael:
Bu leni dau Tylodion
Egwan ſoddion gwag o Fwyd
Ar' gwan dan Gydd, a Gwyneb brydd
A dwyrydd lonydd lwyd.
  Yn nechre'r Grawys leni
Bu yr Cledi clîr yn doſt ar Dîr,
Y gerwin Eira garw;
Ond ni aroſodd hwnnw yn hîr,
Ni welodd neb moi gimmin,
Drwm erwin Od ſy yn byw yn bôd,
Ond Trugaredd Duw ai parodd,
Eglurſodd ydi ei Glôd:
Pedſaſe'n hîr heb doddi,
Buaſei Cledi mawr i'n Gwlad;
Fe fuaſe Lû ar y Ddaear ddû,
Yn newynu'n ddrwg eu hâd;
Ni allaſe'r gwan drafaelio,
Na'r crŷf mor rhodio drwyddo draw;
Gwir Dduw ni roes moi fath i'n hoes,
Ond troes y Loes ai Law.

Daeth

Daeth Rhybydd arall ini
Y leni i lawr dan nefol Wawr
Mae un o'r Nêf Forwynion,
Yn Arwyddion moddion mawr,
Fe'i gwelwyd hi'n y Gogledd,
O Rybydd ri yn ein Golwg ni,
Yn Seren Gynffon lafwen
Nid claerwen frigwen fri;
A hyn dros rai nofweithiau
Y bu hi yn oleu modde maith;
Rhyw erwin Gri arwyddodd hi,
Bydd galed ini'r Gwaith;
A hyn y dorriff allan,
I'n plith ni'n fuan anian yw,
Oni thrown ger bron, wedi gweled hon,
Fel Doethion at un Duw.
Mae hon yn faithfed Seren,
O flaen milen Fŷd o Brŷd i Brŷd,
Yw chanfod o flaen Nelbul,
O erwin Dreigil drŷd;
Cewch weled mae o flaen Blinder,
Drymder draw, mae hon ger llaw;
Er hyn ni wyddon'r Awrhon,
At Ddynion beth a ddaw;
Ar ol hon a fu ddiwaethaf,
Daeth mawr Wafgfa trymma tro;
Daeth Rhyfel câs waith rhai di Râs,
Oedd mewn Bŷd brâs i'n Bro;
Fe dorred Pennau Arglwyddi,
Am ei Drygioni gwedi'r Gwaith,
Am iddynt drîn Gwrthryfel blîn,
Mewn gerwin fyddin faith.
Cewch weled daw'r tro yma,
Ryw lyma o Lîd i'n gwafgu i gid,

I gosbi Annuwiolion,
Drwg Ddynion fryntion fryd ;
Ne hwyrach mae Marwolaeth
Di dorraeth lun ddaw ar ol hyn
Ond ceisiwn roddi yn helaeth,
Yn Gobaith ar Dduw gwyn ;
Trown, trown at Dduw, mae'n rhowyr,
A Chalon gowir bod-ag-un ;
Yn siwr mae'r Bêdd a lygra'n Gwêdd,
Yn oeredd bob yn un ;
Duw cadw George ein Brenhin,
Yn ore Brigin ar ein Bro ;
A phawb dan Grêd sy'n byw ar led,
Oi uniawn Ddeilied O.

## *Dechre Can, ar* FRYNNIAU'r WERDDON.

GWrandewch ar Hanes hynod dychryndod Syndod
O Siampl fawr ofnadwy hynodol a fy hun ; [sun,
Am bedwar oedd yn chware y wysg ar Gardiau'n gall,
Ag Araeth ddrwg oi Genau beth gore a foddie'r fall. [gas,
Wrth hir chware am Chwecheiniog un yno a golla'n
Dechreua yn ddygun ddigio, ymrwyso yn bur ddi-ras ;
A thyngu a rhegu yn rhygyl drwg dreingeil figil sun,
A dylifo oeredd Lyfon, madroddion dysnion tun. [i'n awr,
Gwnae i regu hun'n chwerw, " wel bydru a whelw
" Bob yn Gymmal hefyd hyll ofed syrthwi i'r llawr ;
" Na chauwi byth mo'm Llygaid ar hyd y bywyd byw,
" Mi 'nilla si'r Fats yma er gwaetha doetha Duw."
Ar hyn dyflana'r Ganwyll yn dywyll amwyll wedd,
Ag yntef a roes ar'syrder gan Flinder arw Floedd ;
Dan ddweyd fod peth iw bigo dan gwyno yn ei Goes,
Ar' tri eraill oedd yn crynnu ar lwgu rhag y loes.

Nolwyd

Nolwyd atto Feddig i esmwytho ei lewig Loes,
A hwnnw arno edrychodd mewn gwirfodd ar ei Goes;
Fe ddweydodd wedi symio a theimlo honno o hyd,
Nad oedd Dyn byw ai mendia pe chwilia Barthau'r Byd.
Y Goes arall ar fyr Ddyddiau a ddue moddie maith,
Fe bydrodd holl Fysedd ei Draed ffiedd oedd i waith;
Dechreua 'rheini syrthio i ffordd oddiwrtho ar ffull
Gymal oddiwrth Gymal mawr hynod Siampl hull.
Ag felly ei Goesau a syrthia oddiwrth ei Liniau i lawr,
Ai Ddwylo oddiwrth arddyrna blin droea modda mawr;
Ai Freichiau oi Cymalau fe syrthie'r dyrne dwys,
Ai Gliniau or un modde gofidia a bara bwys.
Ai Lygaid chwaith ni chauodd er maint a wylodd o,
Dros bart o Flwyddyn gyfa bu wasgfa dryma dro;
Yn bydru bob yn Asgwrn 'nrhoi bwrn i rhai byw,
Yn Siampl i bawb eilwaith o Farnedigaeth Duw.
Er pydru ei holl Aelodau yn Ddarnau modder mawr,
A syrthio i lawr oddiwrtho ai llichio i Bridd y Llawr;
'Roedd etto fyw yn ei Galon Ochneidion dyfnion dwys,
Nofnadwy i bawb ai gwele, a hyn a bare Bwys.
O'r diwedd drwy weddion duwiolion moddion maith,
Gollyngodd Duw fo o'i Boenau i'r Bedd mewn gore gwaith; [digwyddodd hyn
'N y Flwyddwn mil saith ganmlwydd chwe deg a 6
Yn *Lloegr* dwedai ddyfal bu'r Dial Siampl sun.
Wel 'drychad pob Dyn diras yn addas dan y Nê,
Am edrych beth a ddweyto, rhag iddo lithro oi Lê;
Rhag mhel ag arfa miniog galluog Nêf a Llawr,
Ag iddo'ch daro ddigllon i Ofidion moddion mawr.
Mae'r Arglwydd Dduw yn gweled ymddygiad pob ryw
Ai Feddwl cin i ddweydyd da hefyd o'r nêf i hun; [Ddyn,
Na iwsiwch Regfydd creulon na Lyfon drwg di-les,
Rhag gaffael yn y Diwedd flin Ddialedd ryfes wres.

ELLIS ROBERTS *ai cant.*

*D I W E D D.*

UNIVERSITY COLLEGE OF NORTH WALES & MON. LIBRARY